

Pecyn i diwtoriaid

Datblygwyd y pecyn hwn gan Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn gyda chefnogaeth Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Theatr Genedlaethol Cymru

Macbeth

gan William Shakespeare

Cyfieithiad

Gwyn Thomas

Gwers i hyrwyddo a chyflwyno Macbeth gan Theatr Genedlaethol Cymru

Mae'n bosib bod gormod o gamau wedi'u nodi ar gyfer un wers felly cewch ddewis a dethol yn unol â lefel a diddordebau'r dysgwyr.

Mae'r deunydd yn addas ar gyfer dosbarthiadau Uwch a Hyfedredd.



Gweithgareddau

Awgrymw'n wneud rhai o'r gweithgareddau isod cyn gweld y ddrama, a rhai ar ôl ei gweld.

Gweithgareddau i'w gwneud cyn gweld y ddrama:

Deuddeg gair hanfodol

Gweler atodiad 1

Gellid dysgu'r eirfa hon gyda chardiau dwyochrog. Bydd angen argraffu'r ddwy daflen gefn wrth gefn fel bod y geiriau Cymraeg yr ochr arall i'r geiriau Saesneg sy'n cyfateb iddyn nhw, neu eu hargraffu ar wahân a'u gludo i'w gilydd wedyn. Yna, eu torri'n gardiau i ymarfer yr eirfa.

Areithiau

Yma gellid rhoi profiad o actio mewn drama Shakespeare i'r dysgwyr trwy'r gweithgaredd hwn sydd yn addasiad o'r dull Dadawgrymeg. Gellid ei wneud gydag un o'r ymsonau neu gyda'r ddwy yn ôl dymuniad y dosbarth.

1. Y tiwtor i egluro'r ymson i'r dosbarth.
2. Y tiwtor i ddarllen yr ymson yn uchel a'r dysgwyr i wrando.
3. Y tiwtor a'r dysgwyr i ddarllen yr ymson gyda'i gilydd.
4. Y tiwtor a'r dysgwyr i ddarllen yr ymson bob yn ail llinell, e.e.

Tiwtor: Glamis, rwyt ti yn hynny'n barod, a Cawdor,

Dosbarth: Ac fe fyddi di yr hyn 'addawyd iti.

Tiwtor: Ond mae gen-i ofn dy natur di;
ayyb

5. Y tiwtor a'r dysgwyr i ddarllen yr ymson bob yn ail llinell gyda'r dysgwyr yn dechrau y tro hwn:

Dosbarth: Glamis, rwyt ti yn hynny'n barod, a Cawdor,

Tiwtor: Ac fe fyddi di yr hyn 'addawyd iti.

Dosbarth: Ond mae gen-i ofn dy natur di;
ayyb

6. Y dysgwyr i ddarllen yr ymson bob yn ail llinell gyda phartner, gyda dysgwr A yn dechrau.
7. Y dysgwyr i ddarllen yr ymson bob yn ail llinell gyda phartner, gyda dysgwr B yn dechrau.
8. Y dysgwyr i godi gan wynebu un o walïau'r dosbarth a darllen yr ymson 'i'r wal'.
Gallant fod mor ddramatig ag y maen nhw'n dymuno bod!
9. Gellid torri'r ymson yn stribedi unigol a chael y dysgwyr i roi cynnig ar ei had-drefnu.

Y Treigladau Trwynol

Mae llawer o enghreifftiau o'r treigladau trwynol yn yr araith gyntaf, felly dyma ddau ymarfer sy'n rhoi sylw i'r treigladau hwnnw:

Ymarfer 1

Gweler atodiad 2

Bydd angen argraffu'r daflen a'r llythrennau, eu lamineiddio yn ddelfrydol ac yna torri'r llythrennau. Y dasg i'r dysgwyr yw dewis y llythrennau cywir i greu'r treigladau trwynol ar ôl 'fy' a'u gosod dros y llythrennau gwreiddiol. Cafodd llythrennau ychwanegol eu cynnwys rhag gwneud yr atebion yn rhy amlwg, a chafodd dau air sydd heb fod yn treiglo eu cynnwys hefyd er mwyn atgoffa'r dysgwyr mai chwe chytsain yn unig sy'n treiglo'n drwynol ar ôl 'fy'. Gallai'r dysgwyr wneud yr ymarfer hwn yn unigol neu gyda phartner. Gellid gwneud ymarfer cyfieithu cyflym i orffen.

Ymarfer 2

Gweler atodiad 3

Bydd angen argraffu'r daflen a'r llythrennau, eu lamineiddio yn ddelfrydol ac yna torri'r llythrennau. Y dasg i'r dysgwyr yw dewis y llythrennau cywir i greu'r treigladau trwynol ar ôl 'fy' a'u gosod dros y llythrennau gwreiddiol. Cafodd llythrennau ychwanegol eu cynnwys rhag gwneud yr atebion yn rhy amlwg, a chafodd dau air sydd heb fod yn treiglo eu cynnwys hefyd er mwyn atgoffa'r dysgwyr mai chwe chytsain yn unig sy'n treiglo'n drwynol ar ôl 'fy'. Gallai'r dysgwyr wneud yr ymarfer hwn yn unigol neu gyda phartner. Gellid gwneud ymarfer cyfieithu cyflym i orffen.

Pelmaniaeth yw'r gêm hon. I'w chwarae bydd angen argraffu'r daflen, ei lamineiddio'n ddelfrydol, a thorri'r cardiau. Mae'r cardiau **dw** i yn perthyn i Set A a'r cardiau **dyma** yn perthyn i Set B. Bydd cardiau Set A yn cael eu gosod wyneb i waered ar un ochr i'r bwrdd a chardiau Set B yn cael eu gosod wyneb i waered yr ochr arall. Yna bydd y dysgwr cyntaf yn codi un cerdyn o Set A ac un cerdyn o Set B i weld ydyn nhw'n cyfateb i'w gilydd, gan eu dangos i'r grŵp er mwyn i bawb gael eu darllen yn uchel. Os ydi'r cardiau yn cyfateb, mae'r dysgwr yn cael eu cadw ac mae'n cael 1 pwynt. Os nad ydyn nhw'n cyfateb mae'n eu rhoi yn ôl yn yr un lle, ac mae'r dysgwr nesaf yn cymryd ei dro ... ac felly ymlaen hyd nes y bydd pob cerdyn wedi cael hyd i'w gymar. Wrth i'r gêm fynd yn ei blaen bydd rhaid i bawb geisio cofio lle mae pob cerdyn. Ar ôl i bob cerdyn gael hyd i'w gymar gellid eu gosod ar y bwrdd mewn dwy res, gyferbyn â'i gilydd: cardiau Set A wyneb at i fyny ar y chwith a chardiau Set B wyneb i waered ar y dde. Yna bydd y dysgwyr yn cymryd eu tro i geisio cofio'r geiriau ar y cardiau ar y dde, yn cynnwys y treigladau.

Llwybro a Rhwystro

Gweler atodiad 4

Addasiad o'r gêm deledu Blockbusters yw hon. Gellid ei chwarae yn y dosbarth er mwyn cael y dysgwyr i ymglyfarwyddo ymhellach â geirfa'r ddwy araith cyn mynd i weld y ddrama.

Bydd angen grid, 15 darn chweongl glas, 15 darn chweongl melyn, dau ddeis a'r cwestiynau isod. Mae'r grid i'w gael ar y we, felly gellir chwarae'r gêm yn electronig, ond o wneud hynny byddai angen newid rhai o'r llythrennau ar y grid er mwyn iddyn nhw gyfateb i'r llythrennau isod. Rydym yn cynnwys y grid fel atodiad yma, i'w argraffu - ar bapur A3 a'i lamineiddio yn ddelfrydol - a'r darnau chweongl hefyd, i'w hargraffu a'u torri. Dyma'r cwestiynau. Gellwch ddewis pa air i'w ofyn yn unol â gallu'r dosbarth.

A	Beth ydy 'lady' yn Gymraeg?	arglwyddes
	Beth ydy 'to lead' yn Gymraeg?	arwain
	Beth ydy 'weapon' yn Gymraeg?	arf
	Beth ydy 'other' yn Gymraeg?	arall
B	Beth ydy 'betrayal' yn Gymraeg?	brad
	Beth ydy 'to threaten' yn Gymraeg?	bygwth
	Beth ydy 'wolf' yn Gymraeg?	blaidd
	Beth ydy 'king' yn 'Gymraeg?	brenin
C	Beth ydy 'death-knell' yn Gymraeg?	cnul
	Beth ydy 'to touch' yn Gymraeg ?	cyffwrdd
	Beth ydy 'handle' yn Gymraeg?	carn
	Beth ydy 'crown' yn Gymraeg?	coron
Ch	Beth ydy 'to whip' yn Gymraeg?	chwipio
	Beth ydy 'to blow' yn Gymraeg?	chwythu
	Beth ydy 'either' yn Gymraeg?	chwaith
	Beth ydy 'sister' yn Gymraeg?	chwaer
D	Beth ydy 'to derive' yn Gymraeg?	deillio
	Beth ydy 'wickedness' yn Gymraeg?	drygioni
	Beth ydy 'to follow' yn Gymraeg?	dilyn
	Beth ydy 'earth' yn Gymraeg?	daear
E	Beth ydy 'repentant' yn Gymraeg?	edifeiriol
	Beth ydy 'boldness / valour' yn Gymraeg?	eofndra
	Beth ydy 'horrific' yn Gymraeg?	erchyll
	Beth ydy 'to win' yn Gymraeg?	ennill
Ff	Beth ydy 'fate' yn Gymraeg?	ffawd
	Beth ydy 'to exchange' yn Gymraeg?	ffeirio
	Beth ydy 'fools' yn Gymraeg?	ffyliaid
	Beth ydy 'false' yn Gymraeg?	ffals
G	Beth ydy 'supernatural' yn Gymraeg?	goruwchnaturiol
	Beth ydy 'oppression' yn Gymraeg?	gormes
	Beth ydy 'bloody' yn Gymraeg?	gwaedlyd
	Beth ydy 'witch' yn Gymraeg?	gwrach
H	Beth ydy 'hail' yn Gymraeg?	henffych
	Beth ydy 'to inform' yn Gymraeg?	hysbysu
	Beth ydi 'that' yn Gymraeg?	hynny
	Beth ydy 'easy' yn Gymraeg?	hawdd
Ll	Beth ydy 'murderer' yn Gymraeg?	llofrudd
	Beth ydy 'blade' yn Gymraeg?	llafn
	Beth ydy 'to fill' yn Gymraeg?	llenwi
	Beth ydy 'full' yn Gymraeg?	llawn
M	Beth ydy 'curse' yn Gymraeg?	melltith
	Beth ydy 'greatness' yn Gymraeg?	mawredd
	Beth ydy 'entry' yn Gymraeg?	mynediad
	Beth ydy 'to die' yn Gymraeg?	marw

N	Beth ydy 'heaven' yn Gymraeg?	nefoedd
	Beth ydy 'aim' yn Gymraeg?	nod
	Beth ydy 'or' yn Gymraeg?	neu
	Beth ydy 'nature' yn Gymraeg?	natur
O	Beth ydy 'offerings' yn Gymraeg?	offrymau
	Beth ydy 'instrument' yn Gymraeg?	offeryn
	Beth ydy 'still' yn Gymraeg?	o hyd
	Beth ydy 'fear' yn Gymraeg?	ofn
P	Beth ydy 'to babble' yn Gymraeg?	parablu
	Beth ydy 'to bring about' yn Gymraeg?	peri
	Beth ydy 'porter' yn Gymraeg?	porthor
	Beth ydy 'don't' yn Gymraeg?	paid
Rh	Beth ydy 'to prevent' yn Gymraeg?	rhwystro
	Beth ydy 'in case' yn Gymraeg?	rhag ofn
	Beth ydy 'too' yn Gymraeg?	rhy
	Beth ydy 'between' yn Gymraeg?	rhwng
S	Beth ydy 'sorcery' yn Gymraeg?	swyngyfaredd
	Beth ydy 'holy' yn Gymraeg?	sanctaidd
	Beth ydy 'senses' yn Gymraeg?	synhwyrâu
	Beth ydy 'to swing' yn Gymraeg?	siglo
T	Beth ydy 'mercy' yn Gymraeg?	trugaredd
	Beth ydy 'violent' yn Gymraeg?	treisiol / treisgar
	Beth ydy 'tenderness' yn Gymraeg?	tynerwch
	Beth ydy 'darkness' yn Gymraeg?	tywyllwch
U	Beth ydy 'ambitious' yn Gymraeg?	uchelgeisiol
	Beth ydy 'howling' yn Gymraeg?	udo
	Beth ydy 'hell' yn Gymraeg?	uffern
	Beth ydy 'any' yn Gymraeg?	unrhyw
W*	Beth ydy 'vision' yn Gymraeg?	weledigaeth
	Beth ydy 'ministers' yn Gymraeg?	weinidogion
	Beth ydy 'act' yn Gymraeg?	weithred
	Beth ydy 'to shout' yn Gymraeg?	weiddi

*mae'r geiriau yma i gyd wedi eu treiglo'n feddal: g > -

Y Beth ydy 'impulse' yn Gymraeg? ysgogiad

Beth ydy 'brain' yn Gymraeg? ymennydd

Beth ydy 'in you' yn Gymraeg? ynot

Beth ydy 'I am' (ffurfiol) yn Gymraeg? yr ydw i

Mae bron bob un o'r geiriau uchod yn dod o'r ddwy araith, ac mae'r gweddill yn dod o rannau eraill o'r ddrama. Bu'n rhaid rhoi geiriau wedi eu treiglo dan y llythyren 'W' gan nad oedd geiriau yn dechrau gydag 'W' yn yr areithiau. *Mae'r pedwerydd cwestiwn dan bob llythyren yn haws, lle bo hynny'n bosib, er mwyn i'r gêm gael symud ymlaen!

Nod

Bydd angen dau dîm i chwarae'r gêm. Nod y Tîm Glas ydy llwybro ar draws y grid o un ochr i'r llall gan geisio rhwystro'r Tîm Melyn rhag llwybro i fyny neu i lawr y grid o un pen

i'r llall yr un pryd. Nod y Tîm Melyn ydy llwybro i fyny neu i lawr y grid o un pen i'r llall gan geisio rhwystro'r Tîm Glas rhag llwybro ar draws y grid o un ochr i'r llall yr un pryd.

Rheolau

1. Un aelod o'r Tîm Glas ac un aelod o'r Tîm Melyn i daflu'r deis.
2. Yr un â'r sgôr uchaf i ddewis llythyren o'r grid. Dewch i ni ddweud mai aelod o'r Tîm Glas sydd wedi cael y sgôr uchaf, a'i fod / bod yn dewis y llythyren 'B'.
3. Y tiwtor i ofyn y cwestiwn cyntaf sydd â'i ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'B', sef 'Beth ydy 'betrayal' yn Gymraeg?'
4. Os bydd y dysgwr yn rhoi'r ateb cywir, 'Brad', y tiwtor i roi darn chweongl glas dros y llythyren 'B' i ddechrau creu llwybr.
5. Os na fydd yn gwybod yr ateb, y dysgwr i ymgynghori â'r tîm; os bydd y tîm yn gallu rhoi'r ateb cywir, y tiwtor i roi darn chweongl glas dros y llythyren 'B'.
6. Os nad oes unrhyw aelod o'r Tîm Glas yn gwybod yr ateb, y tiwtor i ofyn yr un cwestiwn i'r Tîm Melyn; os byddan nhw'n gwybod yr ateb, y tiwtor i roi darn chweongl melyn dros y llythyren 'B'.
7. Os nad oes unrhyw aelod o'r Tîm Glas na'r Tîm Melyn yn gwybod yr ateb, y tiwtor i fynd yn ôl at yr aelod o'r Tîm Glas a gofyn y cwestiwn nesaf sydd â'i ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'B', sef 'Beth ydi 'to threaten' yn Gymraeg?'
8. Felly ymlaen nes bod rhywun yn cael yr ateb cywir.*
9. Yr aelodau nesaf o'r Tîm Glas a'r Tîm Melyn i daflu'r deis.
10. Yr un â'r sgôr uchaf i ddewis llythyren arall o'r grid, ayyb.

Gallai'r tiwtor ysgrifennu'r atebion ar y bwrdd gwyn wrth i'r gêm gael ei chwarae, a rhoi'r eirfa isod ar y bwrdd gwyn neu ar siart hefyd os oes angen.

Geirfa

Pwy sydd nesa?	Who's next?
Fi/Ni sydd nesa!	I'm/We're next!
Taflwch y deis	Throw the dice
Dewis(wch) lythyren	Choose a letter
Mae'n rhaid i mi ofyn i'r tîm	I'll have to ask the team

Byddai'n werth i chi argraffu a lamineiddio'r gêm yma gan y medwrch ei defnyddio dro ar ôl tro i ymarfer geirfaoedd ar unrhyw lefel neu mewn unrhyw faes gyda setiau gwahanol o gwestiynau.

Gweithgareddau i'w gwneud ar ôl gweld y ddrama:

Castio Macbeth

Mae llawer o actorion enwog wedi actio yn y ddrama Macbeth. Tybed pwy fyddai aelodau'r dosbarth yn eu dewis i actio rhai o'r prif gymeriadau?

Gofynnwch i aelodau'r dosbarth pwy fyddan nhw'n eu dewis i actio Yr Arglwydd Macbeth, Yr Arglwyddes Macbeth, Y Brenin Duncan a'r Gwrachod, a pham? Ar ôl iddyn nhw gael amser i feddwl, driliwch y patrymau y byddan nhw eu hangen ar gyfer yr ymarfer (isod). Yna bydd y dysgwyr yn mynd o gwmpas y dosbarth gan ofyn i bawb yn ei dro:

A: Taset ti'n dewis actor i actio rhan (cymeriad) pwy fyddet ti'n / fasat ti'n ddewis?

B: Taswn i'n dewis actor i actio rhan (cymeriad) bydden i'n / 'swn i'n dewis (actor)

A: Pam?

B: Achos ei fod e'n / o'n / ei bod hi'n ... Pwy fyddet ti'n / fasat ti'n ddewis i actio rhan (yr un cymeriad)?

Ar ôl cael sgwrs am y cymeriad cyntaf, fe fyddan nhw'n mynd ymlaen i drafod y cymeriadau eraill. Yna bydd pawb yn newid partner a chael yr un sgwrs gyda phartner newydd. Ar ôl i bawb gael cyfle i siarad gyda'i gilydd, neu gyda 3-4 dysgwr arall mewn

dosbarth mawr, gellwch drafod y cymeriadau fel dosbarth. Oes rhai wedi dewis yr un actorion ar gyfer yr un rhannau?

Pwy ydw i?

Mae'r dasg hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ymarfer eu hansoddeiriau ac ehangu eu geirfa, ateb cwestiwn sy'n dechrau gydag 'Ydw i?' ac ymarfer y patrwm 'Dw i'n meddwl taw / mai'.

Gofynnwch i bawb feddwl, gyda phartner, am ansoddeiriau i ddisgrifio prif gymeriadau Macbeth, sef Yr Arglwydd Macbeth, Yr Arglwyddes Macbeth, Y Brenin Duncan, Banquo, Macduff a'r Gwrachod. Dyma rai posib:

uchelgeisiol, dewr, euog, 'sgeler, ofnadwy, trist, hapus, balch, meddylgar, gorffwyll, abl, bonheddig, gwaedlyd, drwg, cas, ffyddlon, creulon, hyll ...

Gofynnwch i bawb rannu eu hansoddeiriau gyda'r dosbarth, ac ysgrifennwch nhw ar y bwrdd gwyn, gan ychwanegu atynt os bydd angen. Ar ôl drilio'r patrymau y byddan nhw eu hangen ar gyfer yr ymarfer (isod), rhwch bapur gydag enw un o'r cymeriadau ar dalcen pob aelod o'r dosbarth, a chael pawb yn ei dro i geisio darganfod pwy ydy e / o / hi drwy ofyn:

A: Ydw i'n uchelgeisiol?
Dosbarth: Wyt / Nac wyt

A: Ydw i'n ffyddlon?
Dosbarth: Wyt / Nac wyt

Pan fyddan nhw'n meddwl eu bod yn gwybod pwy ydyn nhw, gallant ddyfalu: Dw i'n meddwl taw / mai ... ydw i.

Pwy laddodd y Brenin Duncan?

Gweler atodiad 5

Addasiad o'r gêm Cluedo yw hon. Mae hi'n ymarfer y patrymau 'Dw i'n meddwl bod' a 'Dw i'n meddwl taw / mai'.

I'w chwarae, bydd angen bwrdd gêm, set o gardiau Cymeriadau, set o gardiau Arfau, set o gardiau Ystafelloedd, nodiadau ditectif, deis, cownteri ac amlen. Rydym yn cynnwys bwrdd y gêm fel atodiad yma, i'w argraffu - ar bapur A3 a'i lamineiddio yn ddelfrydol - a'r cardiau a'r nodiadau ditectif i'w hargraffu a'u torri.

Ar ôl egluro rheolau'r gêm i'r dysgwyr, driliwch y patrymau fydd eu hangen i chwarae'r gêm:

Dw i'n meddwl bod ...
Nac ydy, mae/'r ... 'da fi / gen i
Mae'n bosib. Dydyn nhyw ddim 'da fi / gen i
Dw i'n meddwl taw / mai ...

Nod

Mae'r Brenin Duncan wedi cael ei ladd! Nod y gêm yw darganfod pwy yw'r llofrudd, pa arf a ddefnyddiodd ac ym mha ystafell y cyflawnodd y drosedd.

Rheolau:

1. Y tiwtor i roi cerdyn Cymeriad, cerdyn Arf a cherdyn Ystafell mewn amlen, a chymysgu'r cardiau eraill.
2. Pob chwaraewr i gael tri cherdyn, a gofalu nad ydi'r chwaraewyr eraill yn eu gweld. Gall pawb ddileu eu cardiau nhw o'r ymchwiliad yn syth.
3. Y chwaraewyr i gyd i ymgynnull yn y canol a thaflu'r deis. Yr un sydd â'r sgôr uchaf sy'n symud gyntaf, yna'r un ar ei chwith ac felly ymlaen o gwmpas y bwrdd.
4. Yn eu tro, pawb i gychwyn i fyny'r grisiau o'r canol, gan daflu'r deis i symud o ystafell i ystafell. Caniateir mynd yn syth ymlaen ac i'r dde a'r chwith, ond nid ar draws.
5. Ar ôl cyrraedd Ystafell, gall y chwaraewr awgrymu pwy ydi'r llofrudd a pha arf a ddefnyddiodd yn yr ystafell honno:

Dyfalw: Dw i'n meddwl bod [CYMERIAD] wedi lladd y Brenin Duncan yn y/y [YSTAFELL] gyda / efo [ARF].

6. Y chwaraewyr eraill i ymateb naill ai drwy ddweud:

Ateb negyddol: Nac ydi, mae'r [ARF] 'da fi / gen i
neu

Ateb cadarnhaol: Mae'n bosib. Dydyn nhyw ddim 'da fi / gen i.

7. Daw tro'r chwaraewr hwnnw i ben pan mae un o'r chwaraewyr eraill yn dweud bod un o'r cardiau hynny ganddo ef / ganddi hi (ac felly heb fod yn yr amlen).
8. Pawb i wneud nodyn o hyn ar eu nodiadau ditectif.
9. Ar ôl i chwaraewr ddod i gasgliad, gall wneud cyhuddiad.

Cyhuddiad: Dw i'n meddwl taw / mai [CYMERIAD] sydd wedi lladd y Brenin Duncan yn y/
yr
[YSTAFELL] gyda / efo [ARF].

10. Y chwaraewr sy'n gwneud y cyhuddiad i gael edrych yn yr amlen. Os ydy e'n / o'n / hi'n gywir, mae wedi ennill! Os ydy e/n / o'n / hi'n anghywir, mae'n rhaid iddo / iddi roi'r cardiau yn ôl yn yr amlen. Er na chaiff wneud cyhuddiad arall mae'n rhaid iddo / iddi barhau i chwarae fel bod modd i chwaraewyr eraill ofyn cwestiynau iddo / iddi.

Mae drws cudd yn y tŵr, stablau, ystafell arfau a'r carchar. Gall y chwaraewr ddefnyddio'r drwsau cudd hyn i symud o un ystafell i'r ystafell sydd goresgongl ar y bwrdd, e.e. bydd drws cudd y tŵr yn arwain yn syth i'r carchar a'r drws cudd yn yr ystafell arfau yn arwain yn syth i'r stablau.

Rhowch yr eirfa isod ar y bwrdd gwyn i bawb fedru ei gweld tra byddan nhw'n chwarae'r gêm.

Geirfa	
Rowlia'r deis!	Roll the dice!
Pwy sydd nesa?	Who's next?

Fi sydd nesa!	I'm next!
Dy dro di!	Your turn!
Mae 'da fi ...	I've got...
Mae ... gen i	I've got ...
Dim twyllo!	No cheating!

Atodiadau

Atodiad 1

arf(au)	arglwydd/es
anrhydedd	brad
cadfridog	gwaed
gwallgofrwydd	gwrach(od)
henffych	llofruddio
melltith	uchelgais

lord / lady	weapon(s)
betrayal	honour
blood	general
witch(es)	madness
to murder	hail

ambition

curse

Atodiad 2



Yr Arglwyddes Macbeth dw i	Dyma'r Arglwydd Macbeth, fy ngŵr i
Malcolm dw i	Dyma Duncan, fy nhad i
Yr Arglwydd Macbeth dw i	Bod yn frenin, dyma fy mreuddwyd i
Llofudd dw i	Dyma fy nghyllell i
Shakespeare dw i	Dyma fy nrama i
Macduff dw i	Dyma'r Arglwyddes Macduff, fy ngwraig i.

Gwrach dw i	Dyma fy nghrochan i
Birnam dw i	Dyma fy nghoed i
Yr Alban dw i	Dyma Duncan, fy mrenin i.


Atodiad 3

Fy	caerau	m	nh
Fy	corun	m	nh
Fy	bodiau	n	n
Fy	gwaed	ngh	n
Fy	bwriad	ngh	n
Fy	bronnau	m	ng
Fy	llaeth	mh	ng
Fy	cyllell	ngh	ng
Fy	blaen		
Fy	llaw		
Fy	camau		
ngh	mh		
ngh	mh		
m	mh		
ng	nh		

Atodiad 4



Atodiad 5



Stabliau	Tŵr	Neuadd
Seler	Capel	Ystafell arfau
Cegin	Carchar	Ystafell wely

Yr Arglwydder Mabeth	Yr Arglwydd Mabeth	Lennox
Madduff	Eleanore	Banquo
		
		